



Partneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion  
uwchradd ac arbennig.

**Teitl yr adroddiad:**

Partneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac arbennig.

**Manylion yr adroddiad**

Gofynnwyd i Estyn archwilio'r amrywiaeth o bartneriaethau a chysylltiadau sydd gan ysgolion uwchradd ac arbennig ledled Cymru â chyflogwyr, gan edrych ar amrywiol ffactorau gan gynnwys y mathau o gysylltiadau ymgysylltu sydd gan ysgolion â chyflogwyr, ystod profiadau'r dysgwyr, nodweddion ysgolion sydd â chysylltiadau effeithiol â chyflogwyr, sut mae ysgolion yn dechrau ystyried sut i gynllunio ar gyfer thema drawsbynciol gyrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith yn y Cwricwlwm newydd, a'r heriau i ysgolion a chyflogwyr.

**Crynodeb o'r prif ganfyddiadau.**

Pan fydd ysgolion yn ymgysylltu'n dda ac yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth well o fyd gwaith a'r priodoleddau sydd eu hangen arnynt i fod yn llwyddiannus yn y farchnad swyddi. Gall cyflogwyr hefyd ddefnyddio mentrau i hyrwyddo eu rhaglenni prentisiaeth. Mae effeithiolrwydd y gwaith partneriaeth hwn fel arfer yn dibynnu ar weledigaeth ac ysgogiad y pennaeth, uwch reolwyr a staff yr ysgol.

Mae ysgolion yn ymgysylltu â chyflogwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae llawer o ysgolion yn cynnig ystod addas o brofiadau yn gysylltiedig â gwaith i ddysgwyr, gan gynnwys:

- profiadau sy'n rhan o'r cwricwlwm
- diwrnodau thema
- gweithgareddau allgyrsiol
- ymweliadau â lleoedd gwaith
- siaradwyr gwadd.

Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cynnig **profiad gwaith** i ddysgwyr erbyn hyn. Pan fydd ysgolion wedi cynnal aelod o staff sy'n gyfrifol am yrfaeod, yn aml, maent yn darparu cyfleoedd o hyd i ddysgwyr gymryd rhan mewn profiad gwaith. Yn gyffredinol, disgwylir i ddysgwyr drefnu eu lleoliadau gwaith eu hunain, gyda chymorth gan yr ysgol ar gyfer dysgwyr sy'n ei chael yn anodd cyflawni hyn.

Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelodd Estyn â nhw yn ymgymryd â menter y **Gyfnewidfa Addysg Busnes**, wedi'i hwyluso gan Gyrfa Cymru, ac yn

gwahodd cyflogwyr (er enghraifft y lluoedd arfog, yr heddlu a'r diwydiant adeiladu) i ymweld â'r ysgol i siarad â dysgwyr am eu gyrfaoedd. Yn aml, mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys llenwi ffurflenni cais ffug a chymryd rhan mewn chwarae rôl cyfweliad.

Mae llawer o ysgolion yn cynnig amrywiaeth eang o **weithgareddau mentergarwch** trwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae ychydig o ysgolion yn darparu profiadau yn gysylltiedig â gwaith yn y gymuned.

Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnal **ffair yrfaoedd flynyddol**, yn aml wedi'i hwyluso gan Gyrfa Cymru. Fodd bynnag, nid yw llawer o ysgolion yn mesur effaith y ffeiriau gyrfaoedd hyn yn ddigon da.

### **Argymhelliad 1.**

**Dylai ysgolion ystyried yn ofalus thema drawsbynciol gyrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith, a sut gall dysgwyr ddatblygu i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, pan fyddant yn cynllunio eu cwricwlwm newydd**

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

**Bydd Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith yn elfen drawsbynciol o'r cwricwlwm newydd. Mae hyn yn amlygu ei bwysigrwydd ar gyfer helpu dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben a'r angen am ddarpariaeth ledled y cwricwlwm.**

**Er mwyn helpu ysgolion i fedru llunio a darparu Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith mewn ffordd gynhwysfawr a sefydlog, maent yn rhan graidd o'r Canllawiau Meysydd Dysgu a Phrofiad a gyhoeddwyd ar 28 Ionawr, yn ogystal ag o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad eu hunain.**

**Er mwyn cefnogi'r gwaith o lunio a darparu Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith yn y cwricwlwm newydd, bydd canllawiau yn cael eu datblygu. Fel cynnwys Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith y cwricwlwm, rydym yn rhagweld y bydd y canllawiau yn cael eu datblygu ar y cyd gydag amrywiol arbenigwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ateb y diben a bod modd eu cyflawni mewn amrywiol sefydliadau addysg. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu adnoddau ac astudiaethau achos i ysgolion cynradd.**

**Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cynllun peilot o Feincnodau Canllawiau Gyrfa Dda Gatsby ym mhob ysgol uwchradd a rhai ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r meincnodau yn amlinellu'r prif elfennau ar gyfer rhaglenni gyrfaoedd cadarn mewn ysgolion, gan gynnwys; rhaglenni gyrfaoedd sefydlog, cysylltu'r cwricwlwm â gyrfaoedd, cysylltiadau â chyflogwyr a gweithwyr, profiadau mewn gweithleoedd, a dysgu o wybodaeth am yrfaoedd a'r farchnad lafur. Bydd gwerthusiad dros o'r cynllun peilot Gatsby wedi'i gwblhau erbyn haf 2020, gan ganiatáu i ni ystyried os a sut y gall Gatsby helpu i ddarparu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiad Cysylltiedig â Gwaith yn y cwricwlwm newydd.**

## **Argymhelliad 2**

**Dylai ysgolion ystyried sut gallant wella dealltwriaeth dysgwyr o'r gweithle trwy ddarparu ystod ehangach o brofiadau go iawn mewn partneriaeth â chyflogwyr**

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

**Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi'r ymateb a osodwyd i Argymhelliad 1.**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu ysgolion i ddeall y manteision i ddysgwyr o ddarparu profiadau cysylltiedig â gwaith a phartneriaethau gyda chyflogwyr sy'n ystyrlon, wedi'u cynllunio'n dda ac yn sefydlog. O ganlyniad, mae bwriad cynnwys hyn, ynghyd ag enghreifftiau o arferion gorau ac astudiaethau achos, yn y canllawiau Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith arfaethedig.**

**Mae Gyrfa Cymru yn chwarae rhan sylfaenol yn ysbrydoli, ysgogi a rhoi gwybodaeth i ddysgwyr, gan eu helpu i wneud dewisiadau doeth ynghylch; cymwysterau, hyfforddiant ac, yn y pen draw, cyfleoedd swyddi a gyrfa perthnasol. Mewn ysgolion y mae Gyrfa Cymru yn eu helpu i greu cynlluniau drwy'r Model Darganfod Gyrfa, mae'r model yn caniatáu i ysgolion ddarganfod diddordebau dysgwyr a'r hyn sy'n eu hysgogi, a rhoi sylw i anghenion unigol.**

## **Argymhelliad 3**

**Dylai ysgolion werthuso effaith partneriaethau â chyflogwyr a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith ar ddealltwriaeth dysgwyr o'r byd gwaith**

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

**Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi'r ymateb a osodwyd i Argymhelliad 1.**

## **Argymhelliad 4.**

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm lleol yn rhoi ystyriaeth dda i yrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith, ac yn cynnwys cyflogwyr**

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

**Cyfrannodd consortia rhanbarthol at y gwaith o lunio'r cwricwlwm newydd, ac fe fyddant yn parhau i wneud hynny wrth ddatblygu canllawiau Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith (gweler Argymhellion 1 a 2).**

**Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad at wybodaeth briodol am y farchnad lafur.**

## **Argymhelliad 5.**

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill i werthuso effaith rhaglenni Y Gyfnewidfa Addysg Busnes, Dosbarth Busnes a Syniadau Mawr Cymru**

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

**Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad i weithio gyda Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill. Cynhelir gwerthusiadau ar lefel rhaglen ac ar lefel sefydliad, fel nodir isod.**

**Yn 2019 gofynnodd Gyrfa Cymru i Beaufort Research werthuso darpariaeth eu gwasanaeth Partneriaeth Busnes Addysg gydag ysgolion uwchradd prif ffrwd yng Nghymru. Roedd yr ymchwil hwn yn cynnwys y Gyfnewidfa Addysg Busnes. Bydd canfyddiadau'r ymchwil hwn yn cyfrannu at gynlluniau Gyrfa Cymru yn y dyfodol a'u strategaeth 2021 newydd, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaeth mwyaf perthnasol, cyfredol ac effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ac ysgolion.**

**Yn 2019 cynhaliodd Prifysgol Abertawe adolygiad i edrych ar sefydlu Dosbarth Busnes yng Nghymru, wedi'i gomisiynu gan Busnes yn y Gymuned Cymru, er mwyn medru cael dealltwriaeth fanwl o brif nodweddion ac effeithiau Dosbarth Busnes mewn cyd-destun Cymreig. Roedd yr adolygiad yn asesu'r manteision i ysgolion a busnesau, ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddiant a meysydd i'w gwella.**

**Yn 2018, cynhaliwyd gwerthusiad canol tymor o Busnes Cymru, gan gynnwys ymwybyddiaeth entrepreneuriaeth drwy Syniadau Mawr Cymru er mwyn asesu effaith cyflawni'r rhaglen yn erbyn y cynllun busnes ac amcanion ERDF.**

## **Argymhelliad 6.**

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill i lunio arweiniad i gynorthwyo staff ysgolion i greu cysylltiadau â chyflogwyr**

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

**Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi'r ymateb a osodwyd i Argymhelliad 5.**

**Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Yn fewnol bydd yn dwyn ynghyd is-adrannau'r cwricwlwm, polisi gyrfaedd, entrepreneuriaeth, ymgysylltu ag ieuencid a chyflogadwyedd i weithio gyda Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill. Gyda'n gilydd byddwn yn cynnal adolygiad holistig o'r effaith, gan gasglu sylfaen o dystiolaeth i'w ddefnyddio wrth lunio dulliau gweithredu a chanllawiau yn y dyfodol, er mwyn creu amgylchedd cefnogol, cydlynol i ysgolion a chyflogwyr. Byddwn yn datblygu canllawiau Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith i staff ysgolion.**

**Manylion cyhoeddi.**

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar neu ar ôl 12 Chwefror 2020, ac fe ellir ei weld ar wefan Estyn: <https://www.estyn.gov.wales/>

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.



ISBN Digidol **978-1-80038-153-7**

© hawlfraint y Goron Chwefror 2020

WG40143

